UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Ymateb UCAC i'r Ymchwiliad i Athrawon Cyflenwi gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ionawr 2015

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

## Ymateb UCAC i'r Ymchwiliad i Athrawon Cyflenwi gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Rhagarweiniad**

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr astudiaeth hwn.

Mae gan athrawon cyflenwi rôl bwysig ym myd addysg. Mae cael perthynas gydag athrawon cyflenwi o safon yn gallu bod yn allweddol i lwyddiant ysgol pan fydd problemau yn codi oherwydd salwch hir dymor. Gall colli athro am gyfnod effeithio ar ddatblygiad disgybl ac mae'n hynod bwysig medru llenwi'r absenoldeb mewn modd broffesiynol gydag athro sydd yn gallu sefydlu perthynas broffesiynol gyda disgyblion yn gyflym fel nad oes toriad yn yr addysg.

Mae 'run mor bwysig sicrhau bod absenoldebau byr dymor yn cael eu trin yn ofalus. Drwy ddefnyddio athrawon cyflenwi o safon sicrheir nad oes unrhyw doriad mewn addysg ar adeg absenoldeb.

Mae gwaith athro cyflenwi yn gallu bod yn anodd iawn ac mae sefyllfa gwaith athrawon cyflenwi wedi gwaethygu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, yn enwedig wrth i asiantaethau athrawon cyflenwi ddod i rym yng Nghymru.

Mae UCAC yn ymwybodol iawn fod prinder athrawon cyflenwi dirfawr mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Gall sefyllfa o'r fath arwain at ysgolion yn methu llenwi bylchau pan fo absenoldebau ymhlith y gweithlu.

Mae'r sefyllfa yma yn cael ei hamlygu pan fo cyrsiau hyfforddiant mewn swydd a'r gofyn am athrawon cyflenwi yn drwm iawn ar yr un diwrnod. Mae llawer o enghreifftiau mae UCAC yn ymwybodol ohono lle methodd ysgol ddod o hyd i athro i gyflenwi. Mae'r sefyllfa o'r fath yn hollol annerbyniol ac yn rhoi pwysau ar ysgolion i gynnal gwasanaeth dan amodau anodd iawn. Mae'r sefyllfa yma'n arbennig o wir mewn rhai ardaloedd lle mae ysgolion cyfrwng Cymraeg oherwydd bod y pwll o athrawon cyflenwi sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy cyfyng.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Mae athrawon cyflenwi yn cael eu defnyddio'n fynych gan ysgolion. Yn aml pan fo salwch neu pan gyfyd amgylchiadau arbennig nid oes modd cynllunio'r defnydd o'r athro cyflenwi. Y drefn sy'n bodoli fel rheol yw y bydd ysgolion yn cysylltu gyda naill ai'r awdurdod addysg, asiantaeth gyflenwi neu gyda athro/awes yn uniongyrchol i drefnu cyflenwi ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

1.1. Os bydd y cyfnod o absenoldeb yn parhau yna bydd yr ysgol yn gallu gwneud trefniadau fel bo athro cyflenwi yn ei lle tra pery'r absenoldeb.

1.2. Mae ysgolion yn aml yn cynllunio i ddefnyddio athrawon cyflenwi. Enghraifft o'r cynllunio hwn yw y modd y bydd athrawon cyflenwi yn cael eu defnyddio i gyflenwi yn ystod cyfnodau CPA athrawon. Bydd ysgolion hefyd yn defnyddio athrawon cyflenwi er mwyn rhyddhau athrawon ar achlysuron arbennig sydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw. Gall hyn olygu cyrsiau hyfforddiant, cyfarfodydd strategol neu chynllunio, diwrnodau safoni asesiadau athrawon, cyfnod o absenoldeb hir dymor diswgyliedig, e.e. mamolaeth, llawdriniaeth, ac ati.

2. Defnyddir athrawon cyflenwi ar yr adegau canlynol o absenoldebau amrywiol:
   - Cyfnodau o salwch annisgwyl sydyn
   - Cyfnodau o salwch mwy hir dymor
   - Cyfnodau absenoldeb mamolaeth / mabwysiadu / tadolaeth
   - Cyfnodau absenoldeb tosturiol
   - Cyfnodau CPA athrawon

- Cyfnodau paratoi ANG
- Pan fydd athro yn mynychu sesiwn Hyfforddiant Mewn Swydd
- Pan fydd athrawon wedi'u galw i wasanaeth rheithgor
- I ryddhau'r gweithlu ar gyfer cyfarfodydd mewnol / allanol amrywiol
- I gyflenwi yn yr ysgol yn ystod teithiau addysgol

2.1. Mae rhai athrawon yn hapus i gyflenwi'n achlysurol am gyfnod a dim awydd am swydd parhaol tra bo eraill yn dymuno dychwelyd yn barhaol i'r gweithlu.

2.2. Mae ystadegau'r Llywodraeth yn dangos y bydd angen 'dychwelwyr' i'r proffesiwn yn y dyfodol wrth i boblogaeth disgyblion dyfu. Gweler tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r STRB 2014: *A baseline projection from the TPSM (Teacher Planning and Supply Model) for the period 2013/14 – 2022/23 using updated data shows that without any change to numbers there would be no over supply of primary ITT entrants, but a sustained and significant reliance on large numbers of re-entrants to fill vacant positions.*

2.3. Mae'r gweithgareddau dysgu sy'n digwydd dan oruchwyliaeth athrawon cyflenwi yn gallu amrywio'n sylweddol.

2.4. Ceir enghreifftiau clodwiw pan fydd yr athro wedi cydgynllunio efo'r athro cyflenwi. Yn aml bydd athrawon yr ysgol wedi cynllunio cyfres o weithgareddau ar gyfer yr athrawon cyflenwi ar gyfer yr absenoldeb. Yn aml bydd athro wedi cynllunio bod athro cyflenwi yn edrych ar agweddau penodol yn ystod eu habsenoldeb. Wrth reswm, mae enghreifftiau i'r gwrthwyneb lle nad oes cyfle wedi bod ar gyfer cynllunio digonol ymlaen llaw a gall hyn amharu ar ddilyniant.

2.5. Gall absenoldebau'r gweithlu arwain at broblemau mewn ysgolion uwchradd lle nad oes arbenigedd pynciol gan athro cyflenwi. Mae UCAC yn ymwybodol o enghreifftiau lu lle na fu'n bosib dysgu rhai pynciau arbenigol (cerdd, dylunio a thechnoleg, celf a rhai o'r pynciau craidd) gan nad oedd modd cyflogi athro cyflenwi gydag arbenigedd yn y maes. Wrth reswm gall sefyllfa o'r fath arwain at bryder gan rieni yn enwedig pan fo plant yn paratoi ar gyfer arholiadau ac, yn anffodus, ar adegau gall arwain at ddirywiad mewn safonau.


3. Anodd iawn yw mesur yn feintiol unrhyw effaith ar ganlyniadau o ganlyniad i ddefnyddio athrawon cyflenwi.

3.1. Mae hyfforddiant yn fater allweddol (neu diffyg hyfforddiant) o ran yr agenda codi safonau. Nid yw asiantaethau, fel y cyfryw, yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant pwrpasol. Mae datblygu sgiliau, cynnal ac ehangu gwybodaeth bynciol, ymgyfarwyddo â datblygiadau cenedlaethol pwysig a derbyn hyfforddiant ar y defnydd o TGCh mewn dosbarth yn allweddol. Nid yw asiantaethau'n buddsoddi mewn hyfforddiant i'w hathrawon. Pam ddylen nhw? Does ganddyn nhw ddim byd i'w ennill.

3.2. Dengys canlyniadau Holiadur UCAC yn 2014 fod awydd gan athrawon sydd yn cyflenwi o ddydd i ddydd ac athrawon cyflenwi sydd ar gytundeb byr dymor i dderbyn hyfforddiant mewn meysydd penodol.

3.3. Yn ystod 2014 cynhaliodd UCAC astudiaeth o safbwynt Llwyth Gwaith Athrawon. Amlygwyd yr angen am hyfforddiant gan Athrawon Cyflenwi dydd i ddydd ac Athrawon Cyflenwi â Chytundeb.

Mae'r graff isod yn dangos yr amrywiol resymau pam na chafodd Athrawon Cyflenwi hyfforddiant:





| Answer Choices | Responses | |
|---|---|---|
| Dim digon o gyllid | 40.00% | 2 |
| Dim cwrs / cyrsiau addas | 40.00% | 2 |
| Dim cwrs / cyrsiau cyfrwng Cymraeg addas | 20.00% | 1 |
| Problemau rhyddhau / cyflenwi | 20.00% | 1 |
| Anghysondeb cyfleoedd ar draws y staff | 20.00% | 1 |
| Total Respondents: 5 | | |

Yn yr astudiaeth rhestrodd Athrawon Cyflenwi eu blaenoriaethau parthed hyfforddiant.

Gwelai Athrawon Cyflenwi â Chytundeb Dros Dro hyfforddiant ar Reoli Ymddygiad fel prif flaenoriaeth (57.14%) gyda Cynllunio'r Cwricwlwm, Llythrennedd a Rhifedd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol fel ail flaenoriaeth (14.29%).

Gwelai Athrawon Cyflenwi o Ddydd i Ddydd Cynllunio'r Cwricwlwm, Rheoli Ymddygiad a Llythrennedd a Rhifedd yn flaenoriaethau ar y cyd (33.3%).

Isod gwelir ymateb Athrawon Cyflenwi pan holwyd sut yr hoffent dderbyn yr hyfforddiant:




| Answer Choices | Responses | |
|---|---|---|
| Rhannu arfer da (o fewn eich sefydliad / gyda sefydliad arall) | 77.78% | 7 |
| Gweithdai ar ddiwrnod HMS | 55.56% | 5 |
| Hyfforddiant gan Awdurdod Lleol / asiantaeth arall | 33.33% | 3 |
| Cyrsiau e-dechnoleg / dysgu o bell | 22.22% | 2 |
| Cyrsiau preswyl / cynhadledd | 11.11% | 1 |
| Cyrsiau mwy hir dymor yn arwain at gymhwyster penodol | 33.33% | 3 |
| Total Respondents: 9 | | |

3.4. Mae diffyg hyfforddiant digonol ar gyfer athrawon cyflenwi yn gallu arwain yn ddi-os at ddirywiad yn ymddygiad disgyblion. Mae sefyllfaoedd lle nad yw’r athro cyflenwi yn hollol ymwybodol o ddatblygiadau cyfredol ac o ganlyniad nid yw ei paratoad gyda’r gorau a gall ymddygiad dirywio wrth i’r disgyblion gymryd mantais o’r sefyllfa.

3.5. Mae defnydd eang o gymorthyddion dysgu yn hytrach na athrawon cyflenwi yn ein hysgolion bellach a gall hyn yn sicr fod yn ffactor lle bo gostyngiad mewn safonau.

3.6. Cred UCAC mai athrawon cymwysedig yn unig ddylai fod â gofal dosbarth cyfan a bod y trefniadau i ddefnyddio goruchwylwyr cyflenwi a chynorthwywyr dosbarth ar gyfer gwersi pan fydd athro’n

absennol yn gallu tanseilio safonau, yn enwedig lle nad oes hyfforddiant penodol wedi bod ar faterion megis rheoli ymddygiad. Mae'n debygol iawn hefyd, yn y fath sefyllfa, lle efallai bydd gwaith wedi cael ei osod, na fydd modd cynnig cymorth i ddisgyblion sydd angen cyngor pellach ar dasgau penodol.

3.7. Mae disgyblion yn ymgyfarwyddo â'r modd y bydd athro yn eu addysgu, gall newid yn y 'ffordd a'r dulliau' yma pan fo athro yn cyflenwi arwain at densiynau rhwng athro a disgybl a all arwain at dirywiad mewn ymddygiad. Lle bo hynny'n bosib mae'n hollol angenrheidiol bod athro sy'n cyflenwi yn trafod efo'r athro sy'n mynd i fod yn absenno l- lle bo hynny'n bosib - ymlaen llaw. Mewn sefyllfa o brysurdeb dyddiol fel sy'n bodoli yn ei hysgolion. Mae trefnu cyfarfod i drafod cyn i athro cyflenwi byr rybudd orfod cymryd dosbarth yn beth prin iawn.

4. Ar hyn o bryd nid yw cyfundrefn addysg Cymru yn trin athrawon cyflenwi fel pobl broffesiynol. Mae angen cefnogaeth lawn ar bob athro cyflenwi i sicrhau bod hyn yn digwydd.

4.1. Bu cymaint o newidiadau yng nghyfundrefn addysg Cymru dros y blynyddoedd diweddar fel bod gweithlu ein hysgolion yn cael trafferthion cadw i fyny efo pob newid. Mae'r sefyllfa yma yn gwneud gwaith athro cyflenwi bron yn amhosib.

4.2. Mae dau o bolisïau blaengar y Llywodraeth ,sef y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd wedi'u cyflwyno heb nemor ddim hyfforddiant i'r gweithlu parhaol. Ni fu unrhyw hyfforddiant gwerth ei sôn amdano ar gyfer athrawon cyflenwi ac eto disgwylir iddynt weithredu'r polisïau yma yn yr ysgolion.

4.3. Cred UCAC fod y sefyllfa yma yn hollol annerbyniol ac y dylid sicrhau hyfforddiant digonol ar gyfer ein gweithlu fel bo'r polisïau blaengar yma'n cael eu sefydlu a'u datblygu yn ein hysgolion hyd yn oed pan fo absenoldebau ymysg y gweithlu.

4.4. Mae UCAC yn credu ei bod yn hollol angenrheidiol fod athrawon cyflenwi yn y sector uwchradd yn hollol ymwybodol o'r disgwyliadau arnynt bellach o safbwynt y Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd lle mae gofyn i athrawon gyflwyno rhifedd a llythrennedd a'i asesu fel rhan o bob pwnc cwricwlaidd. Mae oblygiadau hyfforddiant sylweddol ar y Llywodraeth yma os yw'r strategaethau yma'n mynd i weithio.

4.5. Yn aml mae athro cyflenwi yn chwilio eu hunain ac yn talu am gyrsiau hyfforddiant ac erbyn hyn mae sawl ardal yng Nghymru mae athrawon cyflenwi yn gweithio i Asiantaethau Athrawon ac yn cael eu talu'n wael a does ganddyn nhw ddim yr un hawliau ag athrawon eraill na statws person cyflogedig. Maent yn weithwyr asiant a does ganddyn nhw ddim yr un statws dan y gyfraith.

5. Cred UCAC fod cynnwys athrawon sy'n cyflenwi am gyfnod hwy na thymor yn y broses reoli perfformiad yn ddatblygiad pwysig o safbwynt rheoli perfformiad yr unigolyn. Mae prinder dybryd o hyfforddiant ar gyfer athrawon cyflenwi a gall y broses reoli perfformiad gynnig hyfforddiant a diweddariad gwerthfawr i athrawon sy'n cyflenwi.

5.1. Os yw athro yn cyflenwi mewn ysgol am gyfnod hwy na thymor yna mae'n angenrheidiol i'r athro fod yn ran o holl brosesau gwella'r ysgol gan gynnwys rheoli perfformiad.

5.2. Cred UCAC fod rheoli perfformiad yn ffordd o sicrhau fod pob athro yn cael ei drin yn deg. Ni ellir drin athro sydd yn cyflenwi mewn ysgol am gyfnod estynedig yn wahanol i weddill aelodau'r gweithlu.

5.3. Mae'r Llywodraeth wedi amlinellu cyfrifoldebau ysgolion ar gyfer Rheoli Perfformiad i Athrawon Cyflenwi ond cred UCAC nad yw'r trefniadau hyn yn cael ei gweithredu'n eang eto. Mae'r trefniadau yma'n gymharol ddiweddar ond maent wedi derbyn ymateb positif lle defnyddiwyd hwy.

6. Mae sefyllfa awdurdodau lleol ac athrawon cyflenwi yn tueddu i amrywio llawer ar draws Cymru. Tra bo rhai awdurdodau yn parhau i gadw rhestr athrawon cyflenwi mae mwy fwy o ysgolion yn cysylltu'n uniongyrchol â'r athro/awes. Mae oblygiadau wrth i'r arfer yma ddatblygu wrth reswm o safbwynt gwiriad DBS yn benodol.

6.1. Mae oblygiadau ieithyddol wrth i ysgolion gysylltu'n uniongyrchol ag asiantaethau neu'r unigolyn. Ydy'r athro cyflenwi gyda'r gallu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg? Mae'n ofid mawr gan UCAC os yw'r sgil angenrheidiol yma yn cael ei anwybyddu er mwyn cael athro cyflenwi.

7. Mae yna bryder fod amrywiaethau lleol a chenedlaethol yn y cyfrifoldebau a roddir i athrawon sy'n cyflenwi. Mae'n bryder fod rhai athrawon cyflenwi yn gorfod ysgwyddo cyfrifoldebau y byddai gweithlu parhaol ysgol yn gwneud.

8. Mae mwyfwy o Awdurdodau Lleol wedi peidio â chadw rhestr o athrawon cyflenwi i hwyluso'r broses o ffeindio athrawon cyflenwi addas. Yn sgil hyn mae wedi mynd yn anoddach i ysgolion ffeindio a threfnu cyflenwi ar fyr rybudd a hefyd i ffeindio athrawon at bwrpas hir dymor. Mae Asiantaethau wedi gallu manteisio ar y cyfle hwn i sefydlu yng Nghymru a gwneud elw sylweddol o'r Gwasanaeth Addysg Cyhoeddus. Cred UCAC bod dros 40 o asiantaethau yn gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd.

8.1. Mae UCAC yn bryderus am y defnydd cynyddol o Asiantaethau. Er bod yr arfer yn fwy cyffredin ar hyn o bryd yn y De, mae'n lledu ledled Cymru. Busnesau sydd yn bodoli er mwyn creu elw ydynt. Maent yn tanseilio statws a hawliau athrawon fel unigolion a fel proffesiwn, ac yn creu haen ail ddosbarth o athrawon. Er mwyn cystadlu â'i gilydd maent yn gwerthu gwasanaeth athrawon am y pris rhataf posibl – mae rhai yn cysylltu gydag ysgolion i gynnig athrawon am bris rhatach a rydym hyd yn oed wedi clywed am gynnig "dau am bris un." Nid dyma sut i greu gweithlu cyflenwi ymroddedig a phroffesiynol ar gyfer byd addysg Cymru.

8.2. Lle roedd y berthynas rhwng ysgol, Awdurdod Lleol ac athro cyflenwi yn golygu rhyw lefel o sefydlogrwydd i'r athro, yr ysgol a'r disgyblion, a rhyw ymdeimlad o fod yn gyflogedig gan y Sir a'r ysgol, mae llawer o athrawon cyflenwi erbyn hyn yn teimlo'n fwyfwy ynysig, ac yn bendant yn derbyn swm yn sylweddol llai o arian.

8.3. Nid yw'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn pennu telerau ar gyfer athrawon nad ydynt yn uniongyrchol gyflogedig gan Awdurdod Lleol neu ysgolion a gynhelir. Nid oes gan athrawon a gyflogir gan asiantaeth yr amddiffynfa sydd wedi bod gan athrawon eraill hyd hyn.

8.4. Nid yw asiantaethau yn buddsoddi ym myd addysg ac mae'r mwyafrif ohonynt yn fusnesau o Loegr sydd wedi gweld eu cyfle i fanteisio ar fyd addysg Cymru, er rydym yn gweld busnesau'n cael eu sefydlu yng Nghymru erbyn hyn.

8.5. Nid oes rhaid i'r asiantaethau ddilyn rheolau byd addysg. Os daw cwyn gan riant yn erbyn athro sydd yn cyflenwi trwy asiantaeth, nid oes disgwyl i'r asiantaeth ymchwilio i'r mater, fel y byddai disgwyl i bennaeth ymchwilio petai'n gyhuddiad yn erbyn aelod o staff ei ysgol. Yn hytrach, mae gan UCAC brofiad o athrawon yn cael eu cyfeirio gan yr asiantaeth yn syth at Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, heb ymchwiliad, a chymryd enw'r athro oddi ar eu llyfrau'n syth. Nid yw'r athro'n gallu cael gwaith cyflenwi wrth ddisgwyl canlyniad ymchwiliad gan Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Nid yw asiantaethau'n talu athro sydd yn wynebu cyhuddiad tra peri ymchwiliad ac mae yna bosibilrwydd i athro sydd wedi derbyn cyhuddiad di-sail fod heb gyflog am gyfnod hir a heb unrhyw bosibilrwydd o gael ei gyflogi gan ysgol neu asiantaeth arall.

8.6. Mae hyn yn gyfnod pryderus iawn i'r athro ac mae hefyd yn wastraff o arian Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CGA o Ebrill 2015). Mae hyn i gyd oherwydd nad yw'r asiantaethau'n cymryd cyfrifoldeb fel cyflogwyr.

8.7. Mae diffyg prosesau ymchwilio ond hefyd diffyg prosesau cefnogi'r athrawon. Mae hyn wedi digwydd ar fwy nag un achlysur gan adael yr athrawon i deimlo'n fregus tu hwnt. Mae sawl pryder ychwanegol yma:

- yr effaith andwyol ar iechyd athrawon;
- y diffyg dealltwriaeth gan yr ysgol ei hun am y prosesau;
- diffyg ymwybyddiaeth gan yr awdurdodau lleol o'r hyn sydd yn digwydd;
- anhawster sefydlu deialog gyda'r asiantaeth athrawon;
- y posibilrwydd bod y mater yn mynd at CyngACC (CGA);
- yr anghysondeb yn y modd mae CyngACC (CGA) yn edrych ar y mater

8.8. Mae llawer iawn o ysgolion erbyn hyn yn troi at asiantaethau athrawon i ffeindio athrawon cyflenwi, nid yn unig oherwydd bod modd arbed rhywfaint o arian, ond er hwylustod – un galwad ffôn i wneud y trefniadau.

8.9. Gan amlaf nid yw’r penaethiaid yn gwybod beth yw telerau cyflog ac amodau gwaith yr athrawon hyn. Does ganddyn nhw ddim syniad beth yw “*cut*” y cwmnïau hyn o’r ffi mae’r ysgol yn ei dalu.

9. Mae’n bryder gan UCAC y gall y cyfrwng addysgu Cymraeg ddioddef ar adegau pan fo athrawon cyflenwi yn dysgu. Yn aml, ac eto oherwydd diffyg hyfforddiant, gall y cyfrwng droi o’r Gymraeg i’r Saesneg pan fo athro/awes mewn sefyllfa anghyfarwydd, oherwydd nad yw'r athro cyflenwi yn hollol rhugl yn y Gymraeg ac nid yw safon eu hiaith Gymraeg yn ddigonol o fewn sefyllfa'r dosbarth. Gall hyn ddylanwadu ar safonau disgyblion.

9.1. Mae'n bryder fod oblygiadau mawr o safbwynt hyfforddi a gloywi iaith rhai athrawon cyflenwi.

9.2. Mae’n bryder na fu hyfforddiant digonol ar gyfer athrawon cyflenwi ar gyfer gweithredu’r Fframwaith Llythrennedd o safbwynt y Gymraeg yn ein hysgolion. Dengys Holiadur UCAC 2014 bod hyn yn wir.

**UCAC**
**Ionawr 2015**



**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com